ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 2 Cyfrol 10 Ebrill 2013

GWEINIDOG: Y PARCHEDIG ERIC JONES BD
Gwernyfed, Penrhosgarnedd, Bangor LL57 2DZ Ffôn 01248 362127
e-bost: ericaval@btinternet.com

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

A OEDDECH CHI YNO?

Gorymdaith y Groglith trwy ddinas Bangor o dan ofal Cytûn.

GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
11.00: YSGOL SUL YR OEDOLION **5.30:** OEDFA'R NOS

Ebrill 21	Gweinidog
28	Parch. Glyn Tudwal Jones
Mai 5	Gweinidog
12	Parch. Ddr. Goronwy Prys Owen
19 Pentecost	Gweinidog
26	Parch. Iorwerth Jones Owen
Mehefin 2	Gweinidog
9	Parch. Ieuan Lloyd
16	Moliant y Plant
23	Parch. Rhys ab Ogwen Jones
30	Parch. Ifan Roberts
Gorffennaf 7	Gŵyl Pen Tymor (Bore)
14	Parch. Ddr. Elfed ap Nefydd Roberts
21	Gweinidog
28	

DYLETSWYDDAU

	Llywydd Y Pythefnos
Ebrill 21	Alwyn Lloyd-Ellis
28	Alwyn Lloyd-Ellis
Mai 5	Arwyn Evans *(Cymun Bore)*
12	Arwyn Evans
19 Pentecost	Aled Harri Jones *Undebol Hwyr (Y Gadeirlan)*
26	Aled Harri Jones
Mehefin 2	John Wyn Jones *(Cymun Hwyr)*

	Llywydd Y Pythefnos
9	John Wyn Jones
16	Maldwyn Thomas
23	Maldwyn Thomas
30	Arfon Evans
Gorffennaf 7	Arfon Evans *(Cymun Bore)*
14	Elin Walker-Jones
21	Elin Walker-Jones
28	Eirian Howells

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

21 Ebrill	A. Roberts Cil-y-Bont
28 Ebrill	Menna Baines
5 Mai	Enyd Roberts
12 Mai	Maisie Griffiths
19 Mai	Dilys Jones
26 Mai	Nerys Morris
2 Mehefin	Cynthia Owen
9 Mehefin	Arwyn Evans
16 Mehefin	Sioned Jones
23 Mehefin	Mair Thomas
7 Gorffennaf	Margaret Davies
14 Gorffennaf	Gracie Williams
21 Gorffennaf	Elin Walker Jones
28 Gorffennaf	Eirlys Jones

Byddai'r Gofalwyr yn falch o dderbyn y blodau ar ddydd Gwener os yn bosibl, neu cysyllter â hwy ar 364094 i wneud trefniadau gwahanol.

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Ple a sut y gwnaethoch ddathlu'r Pasg eleni? Braidd yn siomedig ydyw ein cynulleidfaoedd dros yr Ŵyl hon. Yn dilyn y brecwast blynyddol, diolch bod Oedfa Stori'r Pasg wedi ei chefnogi'n dda, a bod y plant a'r rhieni wedi cael bendith wirioneddol. Cawsom gyfraniad ardderchog gan yr ifanc hefyd bore'r Groglith. Dim ond tri ohonom a fu'n ein cynrychioli yng ngorymdaith y Groglith, a drefnwyd gan Cytun. Dwi'n siŵr y gallasem wneud yn well na hyn. A ydym yn rhannu dyhead yr Apostol Paul : "Rwyf am ei adnabod ef, a grym ei atgyfodiad, a chymdeithas ei ddioddefiadau…?" Philipiaid 3 ad; 10.

Boed i'r atgyfodiad olygu mwy nac erioed i'r rhai a gollodd eu hanwyliaid, sef y rhai a fu'n aelodau gwerthfawr yn ein mysg, sef Miss Menai Williams, Miss Dilys Philips a Mrs Gwenfyl Savage."Os ar gyfer y bywyd hwn yn unig yr ydym wedi gobeithio yng Nghrist, nyni yw'r mwyaf truenus o bawb." 1 Cor 15 ad ; 19.

Eleni, unwn gyda'r Henaduriaeth a'r Gymdeithasfa i longyfarch Mr Wyn Griffith, Pentir, ar gyflawni 50 mlynedd o wasanaeth fel blaenor. Gwyddom ei fod wedi gwasanaethu'n ffyddlon, a hynny gyda gwên bob amser. Diolch amdano. Eleni, byddaf innau wedi cyflawni 40 mlynedd o wasanaeth. Ble aeth y blynyddoedd ?

Erbyn hyn, deallaf fod ein henwad wedi codi £226,000 tuag at Apêl Guatemala a hynny mewn cyfnod economaidd anodd dros ben….Ni allwn ond diolch a chanmol pawb am y fath haelioni.

Rhaid canmol hefyd pawb ohonoch a anfonodd air at ein haelod Seneddol Mr Hywel Williams parthed yr ymgyrch OS, gan Gymorth Cristnogol. Os gwnawn fwy, caiff pawb fwyd, dyna'r neges. Cawn ninnau gyfle unwaith eto i ddangos ein cariad at y tlawd yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol - Mai 12fed -18fed

Gwelwch o'r cyfeiriadau yn y rhifyn hwn, fod ein paratoadau
ar gyfer dathlu ein pen-blwydd yn 10 oed (Dathlu 10) yn mynd rhagddynt.
Cofiwch, byddwn yn dibynnu ar eich cefnogaeth. Gadewch i ni edrych ymlaen.

Cofion caredig atoch oll,

Eric Jones

ATGOFION AC ARGRAFFIADAU - 10 MLYNEDD YN ÔL

OLWEN ROBERTS - CAERHUN GYNT

Roedd symud i Berea Newydd yn gam gweddol hawdd imi ar un ystyr. Roeddwn yn byw ym Mangor ers 1965, ac wedi colli fy mhriod, derbyniais wahoddiad caredig i ymuno gyda'r Chwiorydd yn Nhwrgwyn. Roedd cynhesrwydd pobl y capel newydd yn help i rywun setlo'n syth. Wrth gwrs rwy'n gofidio fod y capel a fu'n gwbl ganolog ym mywyd ein teulu ac ym mywyd yr ardal, wedi peidio â bod. Ond y gwir yw fod y dirywiad yn y capel yn adlewyrchu'r dirywiad mawr a welwyd yn yr ardal gyfan. Nid oedd gan y newydd ddyfodiaid unrhyw ddiddordeb yn y capel, fel man addoli, nac fel man cyfarfod. Diolch am y bwrlwm sydd ym Merea Newydd.

WYNN GRIFFITHS - PENTIR GYNT

Onid y peth gorau ddigwyddodd erioed oedd yr uno? Bu'r croeso a'r cyd-dynnu yn ein plith yn amheuthun, a bu hynny'n gymorth mawr i Mair a finnau setlo'n syth.Profiad brawychus oedd "cyhoeddi" y troeon cyntaf, a minnau ond wedi arfer gyda rhyw lond dwrn. Er yr ymdrech i gyd addoli rhwng Caerhun a Phentir am tua 2 flynedd, a chael y Gymdeithas i'n huno, 'doedd hynny ddim yn ddigon i ddiogelu'r dyfodol. Yn 1948 pan ddeuthum i Bentir gyntaf roedd yna lewyrch ar yr Ysgol Sul a'r oedfaon, ac yn 1963 pan y cefais f'ordeinio, roedd tua 70 o aelodau, ond fe'u collwyd fesul un, ac ni ddaeth neb yn eu lle. Defnyddiwyd y capel weithiau i'r *"public meetings"*, ond prin oedd y Gymraeg yn rheiny.

DILYS JONES - TWRGWYN GYNT

Treuliais lawer blwyddyn yng nghapel Twrgwyn, a hynny ers pan oeddwn yn saith oed, pan ddeuthom fel teulu i fyw i Fangor Uchaf o'r Felinheli. Mae gennyf lu o atgofion hapus am yr amser a dreuliais yn Nhwrgwyn, yn enwedig gyda'r plant. Yn naturiol felly, yr oedd gennyf deimladau cymysg wrth ymadael â'r hen gapel, a symud i adeilad newydd sbon, gwahanol iawn i'r un a adewais, Er hynny, rhaid cyfaddef mai buan iawn y deuthum i ymgartrefu ym Merea Newydd, gan wneud llawer iawn o gyfeillion newydd o'r gwahanol eglwysi a ddaeth ynghyd. Wedi'r cyfan, nid yr adeilad ei hun sy'n bwysig, ond y gymdeithas oddi mewn iddo.

WILLIAM OWEN - Y GRAIG GYNT

Capel yn cuddio o'r golwg oedd yr un newydd. Byddai neb yn gweld hwn wrth wibio heibio fel 'roedden nhw'n gweld y Graig, yr hen Ferea a Thwrgwyn. Wedi cyrraedd, synnu bod iddo faes parcio. Ond a fyddai'n ddigon mawr ar achlysuron arbennig, cynhebryngau a phriodasau? 'Doedd dim rhaid camu'n uchel i gyrraedd

y drws, roedd popeth ar y gwastad, a'r drysau gwydr yn groesawus. Mor wahanol oedd yr *"hen flychau trwm, afrosgo, sgwar"*. Y cadeiriau glas yn apelio i roi clun i lawr, ond yn rhy esmwyth o bosib i gadw'n effro yn ystod cyhoeddiadu hirfaith, heb sôn am y bregeth. Heddiw, mewn ambell oedfa, wrth edrych o gwmpas ar y pennau gwynion, gofynnaf am ba hyd y bydd angen yr un capel yma a wnaed o bump ?

MARGARET THOMAS - BEREA GYNT

Wedi cyfnod pryderus, a gyda chryn amheuaeth ymysg rhai ohonom, daeth yr awr dyngedfennol. Buom ni, cyn aelodau'r hen Ferea yn addoli ar ein pennau ein hunain yn y capel newydd ers Gorffennaf 2002. Ond ar y Sul cyntaf o Ionawr 2003 am y tro cyntaf, cawsom groesawu pawb atom i'n cartref newydd. Synnais i ddim wrth weld y pryder ar wyneb rhai o'r gynulleidfa wrth fynd i mewn i'r *"bungalo mawr o gapel modern"* ys dywed Maldwyn. Wedi deng mlynedd o gyd - ymdrechu, mae'r uno yn dwyn ffrwyth ac fe anghofiwyd am y pryderon. Llwyddiant fu'r uno, ac y mae pethau'n argoeli'n dda i'r dyfodol. Erbyn hyn, wedi gweithio dygn dan arweiniad ein gweinidog, mae Berea Newydd wedi ennill ei le'n dawel ac esmwyth yng nghôl dinas Bangor.

Ein gweinidog yn pregethu o flaen cloc y ddinas ar fore'r Groglith

ADNABOD EIN GILYDD

KATHY A DYFAN SIÔN, GWION SIÔN, IFAN SIÔN AC ALAW LOIS SIÔN; MOELWYN, COED Y MAES, PENRHOSGARNEDD

MALDWYN THOMAS

YN Y GEGIN: Nos Iau, mae Ifan a Lois yn swatio yn eu gwlâu, mae hi'n noson oer a'r lleuad yn dod i'r golwg bob hyn a hyn y tu ôl i frigau Coed y Maes. Mae'r brawd mawr - Gwion - newydd gyrraedd adref ac wedi tynnu ei esgidiau pêl-droed a'u gadael nhw ar y rhiniog. Nos Iau ydi noson ymarfer ym Mhlas Ogwen, Bethesda. Wedyn mi ydan ni i gyd yn mynd i mewn i'r gegin, a Gwion yn dal i wisgo crys coch Lerpwl, wedi setlo a rhoi ei benelin ar y bwrdd - leino gwyrdd a smotiau gwyrdd arno fo - a gwrando ar sgwrsio pobol mewn oed. Mae waliau'r gegin yn lliw gwyrdd golau.

"Yma yr ydan ni'n treulio llawar o amser."

Wrth siarad y mae Kathy yn gwneud panad i'r pedwar ohonom ni ac yn rhoi bisgedi ar y plât.

"Hogan o'r Blaenau ydw i, yn unig blentyn, a'r holl deulu yn dwad o Stiniog"

Heno mae Kathy yn gwisgo du, ac yn amal y mae hi'n gwthio'i sbectol yn ôl ar ei thalcen. Mae hi'n gwenu llawer, yn enwedig wrth sôn am ei theulu ac am 'Stiniog.

"Mi ges i fy magu yn yr eglwys - Eglwys Dewi Sant - cael fy nerbyn pan oeddwn i'n ddwy ar bymtheg, wel tua'r oed yna. Wedyn yn y coleg... a doeddwn i ddim yn mynd."

EFO'I GILYDD: Mae hanes Kathy a Dyfan yn debyg i ddeuawd efeilliaid. Kathy yn ysgol Maenofferen ac ysgol y Moelwyn; Dyfan, sydd yntau'n unig blentyn, yn ysgol Deiniolen ac ysgol fawr Brynrefail. Y ddau o gefndir y chwarel, Robert Hughes, tad Kathy, yn chwarelwr yng Nghwt y Bugail, Mary Wyn, mam Dyfan, yn ferch chwarelwr yn Ninorwig. A rwan, y mae y mae yna eithriad yn yr hanes, achos mae John, tad Dyfan, yn hannu o Ben Rhiw Llan yn ne Ceredigion. Ond dyna'r unig wahaniaeth. Mae'r ddau deulu yn rhoi cefnogaeth lwyr i'r ddau blentyn yn yr ysgol, ac wedyn yn y coleg. Teuluoedd Cymraeg, diwylliedig, yn credu mewn gwaith caled.

"Ar ôl cael damwain yn y chwarel, mi aeth fy nhad yn yn bostmon yn Stiniog. Mae o'n dal i weithio heddiw. A mae mam, Linda, yn teithio bob dydd i'r gwaith yn Ysbyty Gwynedd. Ond ambell noson mi fydd hi'n aros yma hefo ni, yn bydd Gwion? Mi fydd nain yn eistedd ar y soffa yn fan 'ma."

RHAGOR O'R DDEUAWD: Mae Kathy yn chwarae'r ffidil yng Ngherddorfa Gwynedd a Dyfan yntau'n chwythu'r iwffoniwm ym mand pentre Deiniolen. Mae

Dyfan hefyd yn aelod yng Nghapel Ebeneser y Presbyteriaid yn y pentref. A maes o law mi aiff Kathy i Fangor ac i adran y Gymraeg, a Dyfan yntau i Aberystwyth ac astudio Gwleidyddiaeth yno. Ac yna, Caerdydd.
"Doeddwn i rioed wedi bod allan o Wynedd cyn hyn."
Geiriau Kathy ydi rhain. Mae eu hanes hwy, Gymry Cymraeg ifanc, yn codi calon rhywun.
Yn y brifddinas, mae'r ddau yn dechrau canlyn. A Kathy yn gweithio i awdurdod S4C cyn symud i swyddfa'r Blaid, a Dyfan yntau yn gweithio i nwy Prydain.
"...yn delio efo cwynion cwsmeriaid" - swydd-ddisgrifiad gwleidyddol, a diplomatig hefyd. Gwenu y mae o wrth ddweud y gweiriau.
YN ÔL AM Y TOPIA: Ac, yna, am y gogledd a byw ym Mae Penrhyn am bum mlynedd.
Ambell swper yn y Queen's Head yng Nglanwydden, a chael bwrdd cyn i lanw pensiynwyr yr Eingl gyrraedd y lle. (Yr Eingl - llawer o gin a slimline tonic iddi hi a hanner iddo fo. Sgert dew o Per Una, M&S iddi hi, anorac lliw pupur a halen o'r un siop [cangen y dynion] iddo fo.)
Wedyn mae Kathy a Dyfan yn clwydo yma ym Mhenrhosgarnedd. Yn Ysbyty Gwynedd y daw Gwion ac Ifan Rhys i'r byd, ac Alaw Lois yn cael ei geni yn gartrefol yn y llofft yn "Moelwyn", Coed y Maes.
"Mi ydan ni'n hapus iawn yma."
Kathy a Dyfan efo'i gilydd. Maen nhw'n ffrindiau da efo criw tebyg, a'r plant yn Ysgol y Garnedd sydd rownd y gornel o'r tŷ. 'C.P.P' - Clwb Pêldroed Penrhosgarnedd i Gwion, 'Clwb Penrhos' - dan saith oed i Ifan, a gymnasteg yn y gampfa i Alaw Lois. A phawb yn nofio.
Bellach mae Kathy yn gweithio - *"yn hapus iawn"* - yn adran bersonél swyddfa addysg Sir Ddinbych, a Dyfan yn swyddfa Comisiynydd yr Iaith yng Nghaernarfon, yn gweithio efo awdurdodau lleol a'r sector gyhoeddus. Mae yna lawer o fynd a dod o Ddeiniolen a'r Blaenau, a gwarchod y plant yn ôl y gofyn. Yn yr ysgol Sul y mae Dyfan yn gofalu am ddosbarth blwyddyn 2 - efo Menna Baines.
Yna yn y gegin, mae hi'n amser gwely ar Gwion, ac yn hen bryd i minnau fynd adref.
"Nos dawch Gwion."
A'r hen leuad yn dal i sbecian rhwng brigau Coed y Maes.

› Mae gwir angen athrawon newydd i'r Ysgol Sul erbyn mis Medi - i weithio mewn timoedd….cysyllter gydag Delyth Wyn Davies 353132

› Mae gwir angen cymorth mwy o gyfeilyddion arnom boed wrth y piano neu'r organ….cysyllter gydag Eirian Howells 355925

CIC BANG

DELYTH WYN DAVIES

Mae criw da o bobl ifanc o'r ofalaeth yn dod bob nos Fercher i gyfarfodydd CIC Bang. Yn ystod y tymor diwethaf croesawyd aelod newydd sef Arwel Llewelyn i'n plith. Cafwyd rhaglen amrywiol o weithgareddau yn nhymor y Gwanwyn, gan gynnwys Cwis Logos, pryd gwelwyd ochr gystadleuol ambell aelod, Noson Sion a Sian i ddathlu Gŵyl Santes Dwynwen, Cwis Pwy sy'n gwybod am Iesu ar ffurf *Who wants to be a Millionaire*, gwylio ffilm, Cwis Gŵyl Dewi, a noson gemau Xbox, pŵl a phêl-droed bwrdd. Ymhlith ein siaradwyr gwadd oedd Gwenno Teifi yn arwain gemau a sgwrs, Nia Williams yn rhannu am ei phererindod i Rufain, a Gwyn Lloyd Jones yn dangos rhyfeddodau o'r byd ailgylchu. Edrychwn ymlaen at dymor yr haf pryd y cawn gynnal stondin gacennau, twrnamaint bwrdd tennis a noson ddi-gwsg ymhlith nifer o weithgareddau eraill.

CIC BACH

Dros yr wythnosau diwethaf bu criw'r CIC bach yn chwarae nifer o gemau a fu'n ein harwain i edrych ar hanes y Pasg. Cafwyd noson o hwyl i ddathlu'r Pasg ddiwedd y tymor. Cofiwch bod croeso i unrhyw blentyn Bl 1 i 6 i ymuno yn yr hwyl bob nos Fawrth am 6 tan 7 o'r gloch.

CORNEL CODI GWÊN

GLYN LLOYD JONES

'DYN NI MOR IFANC Â 'DY NI'N EI DEIMLO!

Roedd gweinidog ifanc yng nghartref un o'i aelodau hynaf ar achlysur ei ben-blwydd. Wedi iddo ei holi am ei fywyd yn yr un pentref dros 99 mlynedd, dyma'r gweinidog yn diolch iddo ac yna ychwanegu "Gobeithio y gwelai chi ymhen y flwyddyn ar eich pen-blwydd yn gant oed." Edrychodd yr hen ŵr yn ofalus ar y gweinidog cyn dweud "Dwi'm yn gweld pam lai Mr Jones bach, mae 'na olwg ddigon iach arnoch."

SALM AC EMYN

EBRILL 28	
Salm 113: 1-4 Dewi Walker Jones	58 Meilyr Lynch
MAI 5	
Salm 66:1-4 Gwion Siôn	57 Eleri Roberts
MAI 12	
Salm 100 Iolo Evans Jones	53 Catrin Lois Edwards
MAI 19	
Salm 150 Owain Jones	147 Rhys Owen
MAI 26	
Salm 148 Lois Medi William	150 Mia Roberts
MEHEFIN 2	
Salm 24 Guto Llŷr Davies	51 Ifan Siôn
MEHEFIN 9	
Salm 111 Siwan Huw Williams	416 Owain Edwards
MEHEFIN 16	
Mawl y Plant	
MEHEFIN 23	
Salm 84 Tomos Lynch	410 Rhys Roberts
MEHEFIN 30	
Salm 92 Carwyn Siôn	145 Llio Eurgain
GORFFENNAF 7	
Salm 95: 1-7 Efa Huw Williams	25 Alys Mc Cann
GORFFENNAF 14	
Salm 93 Ela Vaughan Roberts	146 Gwen Roberts

MASNACH DEG

Cofiwch bob amser ein bod wedi cytuno fel eglwys i ymrwymo i Fasnach Deg, felly cofiwn ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg, megis coffi, siwgr a bisgedi, yn ein holl gyfarfodydd.

CYLCH Y CHWIORYDD

ELIZABETH EVANS

Cynhaliwyd cyfarfod Cylch y Chwiorydd ar Chwefror 6ed o dan lywyddiaeth Astra Thomas. Cymerwyd y defosiwn gan Helen Morris gyda Gwenno Pritchard yn cyfeilio.
Y wraig wadd oedd Angharad Hughes gyda Barbara Jones yn cynorthwyo. Mae Angharad yn ymddiddori mewn gwaith llaw, yn arbennig cwiltio. Dangosodd lawer o'i gwaith megis cwiltiau, clustogau, bagiau, matiau bwrdd a.y.b. 'Roedd pawb wedi dotio at y patrymau lliwgar a'r gwaith manwl ac amrywiol. 'Roedd y baned yng ngofal Olwen Roberts, Sarah Buchan ac Elizabeth Evans.

Cawsom gyfarfod cartrefol a diddorol iawn ar Fawrth 6ed pan fu tair o chwiorydd y capel yn son am eu gwaith.
1. Sioned Jones (Goleufryn). Yn enedigol o Gaerfyrddin ac yn chwaer i Angharad Mair (Heno S4C). Graddiodd yn y Gymraeg a Ffrangeg a bu'n gweithio am gyfnodau fel athrawes a gyda'r BBC. Yna dechreuodd gyfieithu ar bapur o'i chartref ond yn awr mae'n cyfieithu ar y pryd mewn gwahanol gyfarfodydd e.e. Cynghorau Môn, Gwynedd a Chonwy. Cawsom beth difyrwch wrth iddi nodi gwallau mewn arwyddion oedd wedi cael eu trosi i Gymraeg hollol hurt. Y dyfodol i gyfieithwyr yn ansicr gan bod angen "tendro" am y gwaith yn yr oes fodern.
2. Eirlys Jones. Wedi ei magu ar Fferm Cilmelyn sef safle Ysbyty Gwynedd heddiw. Bu'n flaenores ym Moreia, Glanadda ac wedyn yn Seion Hirael. Bu'n gweithio ym myd Addysg ond bellach mae'n gwneud gwaith gwirfoddol yn y llysoedd. Ei swydd yw bod ym gymorth i dystion. Mae llawer ohonynt heb fod mewn llys o'r blaen ac yn bryderus iawn. Mae llawer o'r tystion yn ferched sydd wedi eu treisio ac mae Eirlys yno i fod yn gefn ac yn gwmni iddynt. Mae wedi mwynhau bod ar gyrsiau i'w pharatoi ar gyfer y gwaith pwysig yma.
3. Menna Baines. Yn enedigol o Fangor ond wedi symud i Bowys a Phenygroes. Yn blentyn, 'roedd yn hoff o fynychu cyfarfodydd llenyddol a chystadleuol ac yn mwynhau trin geiriau. Pan oedd yn y Coleg bu ar banel "Llef" a gwnaeth waith ymchwil ar Caradog Prichard ar gyfer ei gradd. Bu'n gwneud amryw swyddi megis Is-olygydd *Golwg*, yn un o olygyddion *Barn*, addysgu yn gyffredinol, cynhyrchu llyfrau i ysgolion a sgriptio *Pobl y Cwm*. Bu ar dîm golygu *Y Gwyddionadur*.
Ar hyn o bryd mae'n golygu *Barn* ynghyd â Vaughan Hughes. Mae'n falch bod y dechnoleg bresennol yn gwneud y swydd gymaint yn haws.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Val Jones a chymerwyd y defosiwn gan Elizabeth Evans. 'Roedd y baned yng ngofal Menna Evans, Gracie Williams ac Eirian Howells.

TAITH PERERIN GOGLEDD CYMRU 2013

ABERGWYNGREGYN I EGLWYS GADEIRIOL BANGOR
Rhan o Bererindod 2013 i Enlli - Dydd Sadwrn Mai 11, 2013

FEL RHAN O DDATHLIADAU PENBLWYDD 10 OED EGLWYS BEREA NEWYDD, Y MAE CYFLE ARDDERCHOG I'N HAELODAU O BOB OED, A FFRINDIAU I YMUNO Â THAITH PERERIN GOGLEDD CYMRU 2013.

Llwybr Cerdded Hir o Abaty Dinas Basing ger Treffynnon i Ynys Enlli yw Taith Pererin. Y mae yn 130 milltir i gyd, a dechrau Mai bydd cyfle i gerdded yr holl ffordd dros gyfnod o bythefnos. Ein bwriad ni ym Merea Newydd yw ymuno â'r bererindod ond gwneud hyn trwy ddewis un o ddwy daith a drefnir gennym ni.

TAITH 1: **Tua 10 milltir - o bentref Abergwyngregyn am 10.30 a.m. a dilyn Llwybr Gogledd Cymru i Landygái ac yna ymlaen dros Fynydd Bangor i'r Gadeirlan**

TAITH 2: **4 - 5 milltir - o bentref Tal-y-bont, heibio Melin Cochwillan ac i Landygái gan ymuno â Thaith 1.** Cychwyn tua 12.30
Gellir teithio i'r mannau cychwyn – Aber a Thal-y-bont - ar fysiau Bangor - Llandudno (Bysiau Rhif 5)

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
• Meira Jones: 01248 364085 *neu* gerameira@btinternet.com
• Delyth Oswy Shaw: 01248 354952 *neu* delythoswy@btinternet.com

BYDDAI TAITH 2 YN ADDAS AR GYFER TEULUOEDD A PHLANT
Pe dymunai rhai, gellid cychwyn cerdded o Landygái

> "Pan ddêl Mai â'i lifrai las
> Ar irddail i roi urddas . . . " yw geiriau Dafydd ap Gwilym.

Erbyn Mai 11 dylai'r gwanwyn fod gyda ni yn ei ogoniant a bydd y ddwy daith yn mynd trwy rannau hyfryd o arfordir Arfon. Ymunwch â ni ar brofiad unigryw. Gellir cael mwy o wybodaeth am y Bererindod ar pilgrims-way-north-wales.org

DIWRNOD BYD-EANG Y CHWIORYDD

"BŬM YN DDIEITHR A RHOESOCH I MI GROESO"

Daeth nifer dda o chwiorydd o gapeli ac eglwysi Cymraeg Bangor i Benuel ar brynhawn Dydd Gŵyl Dewi i weddïo gyda chwiorydd o bedwar ban byd ar y thema sydd mor berthnasol yn y byd heddiw.

Chwiorydd Ffrainc oedd wedi paratoi'r gwasanaeth ac 'roedd sumbolau gweladwy o'r wlad honno wedi'u harddangos yn ogystal â'n cennin Pedr ninnau.

'R oedd lliw yn nodwedd amlwg o'r gwasanaeth. Cyflewyd y croeso i'r dieithryn trwy ddarlun modern mewn lliwiau cynnes mewn cyferbyniad â'r wraig mewn llwyd a ddaeth yn nes atom wrth i'r gwasanaeth fynd yn ei flaen.

Cafwyd cerddoriaeth o Ffrainc hefyd a'r cyfan yn gweu i greu awyrgylch gynnes a chroesawgar.

A pharhaodd y cynhesrwydd wrth i ni fwynhau 'paned a chacen gri gyda'r dyfyniad *"Nid oes ddieithriaid; dim ond dynion a gwragedd sydd heb eto gwrdd â'i gilydd"* yn seinio yn ein clustiau.

Yn sicr da oedd i ni fod yno.

WWW.BEIBL.NET

DELYTH WYN DAVIES

Tybed faint o aelodau Berea Newydd a sylwodd ar unrhyw beth gwahanol yn y darlleniadau a gafwyd yn ystod Gwasanaeth Stori'r Pasg gan bobl ifanc yr Ysgol Sul, ac ar y cyfeiriadau iddynt a daflunwyd ar y wal. Darlleniadau o beibl.net a gafwyd, a hynny mewn iaith sy'n addas i bobl ifanc heddiw.

Dechreuodd y gwaith ar baratoi beibl.net fel ymdrech i fynegi neges y Testament Newydd mewn iaith lafar syml. Roedd dau grŵp o ddarllenwyr yn bennaf mewn golwg - pobl ifanc, yn arbennig y rhai hynny sydd heb gefndir capel neu eglwys, a dysgwyr y Gymraeg. Mae'n gyfieithiad cwbl wreiddiol o'r Beibl, yn hytrach na bod yn ddiwygiad o unrhyw fersiwn Cymraeg, nac yn gyfieithiad o unrhyw fersiwn Saesneg. Cafodd ei ysgrifennu'n bennaf gan Arfon Jones, Swyddog Maes GiG (Gobaith i Gymru).

Mae'r Testament Newydd wedi bod ar gael ar wefan beibl.net er 2002. Roedd yr ymateb iddo mor gadarnhaol penderfynodd GiG fod rhaid mynd ati i baratoi fersiwn llafar tebyg o lyfrau'r Hen Destament. Felly ar 1 Mawrth eleni, a hithau'n 25 mlynedd union ers cyhoeddi'r Beibl Cymraeg Newydd, cafodd y Beibl cyfan ei lansio ar wefan beibl.net am y tro cyntaf.

Ewch i wefan **www.beibl.net** lle ceir fersiwn o'r Beibl y gellir chwilota drwyddo, yn ogystal ag adnoddau ar bob pennod i'ch helpu i'w ddarllen, ei ddeall a'i astudio. Gallwch lawr-lwytho'r Beibl i'ch cyfrifiadur neu dablet. Ar y wefan ceir hefyd adnoddau i eglwysi ac ysgolion - adnoddau y gallwch eu lawr-lwytho a'u defnyddio yn rhad ac am ddim.

Gallwch hefyd osod beibl.net ar eich ffôn symudol – iPhone, Android, Y Fwyaren a ffonau symudol eraill sy'n defnyddio Java. Mae gan beibl.net dudalennau Facebook a Twitter y gallwch eu hoffi a'u dilyn.

Gwneir cryn ddefnydd o adnoddau beibl.net ym Merea Newydd yn ein gwaith gyda phlant ac ieuenctid - yn y clybiau, mewn gwasanaethau teuluol a thrwy werslyfrau'r Ysgol Sul. Hoffwn annog holl deuluoedd Berea Newydd i gymryd y cyfle hwn i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael mynediad at beibl.net yn eu cartrefi ac i'w hannog i'w ddarllen ac ystyried ei neges.

SEIAT ICHTHUS

ALWYN ROBERTS

CWESTIWN GAN VAL P. JONES
Spurgeon a ddywedodd amdano ef ei hun *" Born twice, died once."* Beth yw ystyr geiriau'r Arglwydd Iesu: *"y mae'n rhaid eich geni chwi o'r newydd"* Ioan 3 ad 7.

Mae ambell i gwestiwn yn llawer haws i'w ofyn na'i ateb. Felly mae hi gyda'r cwestiwn hwn sy'n codi, yn ei sgîl, bob math ar faterion na allaf ond brin gyffwrdd a hwy. Gellir cyfieithu'r gair a ddefnyddia Ioan mewn dwy ffordd, naill ai 'o'r newydd' neu 'oddi uchod' ac fe gofir mai cyfieithiad William Morgan oedd 'drachefn'. Pa gyfieithiad bynnag a dderbynnir mae'r ystyr yn glir - mae'n rhaid wrth fywyd newydd. Dim ond Ioan ymhlith awduron y Testament Newydd sy'n defnyddio 'geni' i ddynodi dechrau'r bywyd newydd hwn ond y mae'r syniad o newydd-deb bywyd yn dra chyffredin.

Arwydd dechrau'r bywyd newydd hwn oedd y sacrament o fedydd. Cyn y cyfnod Cristnogol yr oedd bedydd yn ddefod mewn amryw grefyddau ac iddi nifer o wahanol ystyron - defod o lanhau, o edifeirwch neu, yn achos Iddewiaeth, I dderbyn un o'r tu allan a oedd am gofleidio'r grefydd Iddewig. Ond yn achos y bedydd Cristnogol y mae yn gyson i'w wneud yn enw Iesu Grist ac yn arwydd o uno gydag ef yn ei farwolaeth a'i atgyfodiad i fywyd newydd.

Yn nyddiau'r Testament Newydd fe fyddai dod yn Gristion yn gam amlwg iawn. Fe olygai adael yr hen fywyd a'r hen gymdeithas ac fe fyddai ei ddisgrifio fel geni i fywyd newydd yn amlwg ac yn addas.Wrth gwrs, y mae'r un fath ar newid yn digwydd i rai yn ein cyfnod ni ond i lawer o aelodau eglwysig heddiw mae'r proses yn wahanol ac 'ail-eni' yn ddisgrifiad llai addas. Mae un emynydd yn son am

'Dyfu'n dawel yn dy eglwys
Ffrwytho'n llawn.'

sy'n nes at brofiad a dyhead y rhelyw ohonom. Ond y bywyd newydd sy'n bwysig - nid y gair a ddefnyddiwn i'w ddarlunio.

OS AM GYFRANNU I'R RHIFYN NESAF O ICHTHUS, YNA GALLWCH:

➽ **EI YRRU I 4 GOLEUFRYN, PENRHOSGARNEDD LL57 2LY**
➽ *neu* **GYRRWCH E-BOST AT** *gdeiniol@hotmail.com*
I GYRRAEDD ERBYN Y 1af O GORFFENNAF OS GWELWCH YN DDA

Y GORNEL WEDDI

O DAN OFAL GARETH EMLYN JONES

Gofynnodd y gweinidog imi gynnwys, am y tro cyntaf yn *Ichthus*, grynhodeb o bregeth, a dyma'r ymgais:

Testun y Barchedig Megan Williams yn oedfa'r bore Sul y Pasg oedd " Canys felly carodd Duw y byd fel y rhoddodd ei uniganedig Fab fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo Ef ond caffael ohono fywyd tragwyddol".

Ei gofid oedd bod carfan o'r eglwys yn dueddol i gyflwyno'r Groes a'r Atgyfodiad fel pe bai Iesu Grist trwy farw ar y Groes wedi bodloni llid Duw dicllon a dialgar ac wedi llwyddo trwy'i farwolaeth i newid agwedd Duw at ddyn. Y gwirionedd yw mai mynegiant yw'r Groes a'r Atgyfodiad o gariad, trugaredd a gras diderfyn Duw tuag atom. Mae'r broses o achubiaeth bob amser yn deillio o Dduw ei hun ac oherwydd ei gariad anhraethol yr anfonodd ei fab, yn ymgorfforiad o'r cariad yma, i'r byd. I'r byd sylwer, gan gynnwys y da, y drwg, y rhai sy'n ymwrthod â'i gariad yn ogystal â'r rhai sydd yn ei garu. Cysur i bawb ohonom yw geiriau Awstin Sant pan ddywedodd
"Mae Duw yn caru pob un ohonom fel pe na bai ond un ohonom i'w garu".

Mae'r Pasg yn dathlu rhyddhau grym y Cariad dwyfol ar ein byd a dyma i ni gyfle o'r newydd i wahodd Iesu i'n calon i fyw, ac i addunedu i'w ddilyn yn dynnach a'i garu'n anwylach. Boed i'n dyhead fod fel yr emynydd :-

GWEDDI
"O! Iesu Byw, dy fywyd Di
Fo'n Fywyd yn fy mywyd i."

BYDDWN AR EIN GWYLIADWRIAETH!

Dyma rai o'r pethau â ddiflannodd o'r capel dros y misoedd diwethaf:
Cwpan Bedydd - Fas Pres - Tostiwr - Offer ein camera newydd
Fideo 'Images of Salvation". A wyddoch rhywbeth amdanynt?

MENAI WILLIAMS (1923-2013)

MALDWYN THOMAS

Merch lygatlas landeg, merch y mans. Fe adawyd ei thad, Alun Williams, yn ŵr gweddw i fagu dwy o ferched. Roedd Menai wedi cyrraedd y coleg yn Aberystwyth erbyn hynny a Nesta'r chwaer fach yn dal gartref. Amser y rhyfel oedd hi ac fe adawodd Menai'r coleg am gyfnod a mynd i ddysgu yn ysgol fach Dolanog cyn dychwelyd i Aber a graddio yn y dosbarth cyntaf yn y Gymraeg.

Merch y parlwr Methodistaidd yn hytrach na'r gegin oedd Menai a'r te bach yn achlysur arbennig yn ei diwrnod. Lliain claerwyn, cwpanau eiddil a'r danteithion bychain elegant ar y bwrdd o flaen y tân. Roedd bisgedi Bath Oliver yn amlwg yn yr arlwy. Roedd straeon *The Borrowers* gan Mary Norton yn ffefrynnau ganddi, straeon sy'n cyfleu syberwyd y blynyddoedd Edwardaidd, a'r cymeriad Mrs Driver yn ymddangos yn y diwetydd ar ben y grisiau yn cario hambwrdd ar gyfer Aunt Sophy, a bisgedi Bath Oliver wedi eu trefnu'n batrwm gosgeiddig ar y plât. Dyma Menai. A dweud y gwir mi roedd hi'n arddel yr "Aunt" - "Aunt Susie" yn Llanwnda, hen wraig y mae gen i gof plentyn amdani hi. Fe fu Mary Norton farw yn wyth deg naw oed, fel Menai hithau.

Merch bryniau meddal Dyffryn Clwyd a Sir Drefaldwyn oedd hi. Yr oeddwn yn teimlo'n aml nad oedd Menai'n hapus yng ngerwinder llym Eryri, a'i bod hi'n reddfol nes at lenorion y Canolbarth a Bro Myrddin nag at gewri'r llechen las. Ar ôl dod i'r Coleg Normal yn 1954 fe fu hi'n cynnal sawl dosbarth ar Ann Griffiths a Phantycelyn. Pobol Maldwyn oedd ei phobol hi - yr Hanmeriaid, Emlyn a Shirley Hooson, y Wigleys a Glyn Tegai Hughes, warden Gregynog, tra oedd Richard Bennett, yr hen hanesydd enwadol o Lanbrynmair, yn arwr mawr.

Rhoddodd Menai ran fawr o'i hoes i'r Coleg Normal. Ddwy flynedd ar ôl iddi gyrraedd yno fe ddynodwyd y lle'n goleg hyfforddi athrawon trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma her aruthrol a oedd yn golygu arloesi a chynnig cyrsiau newydd yn yr iaith a pherswadio myfyrwyr a oedd wedi cael eu haddysg uwchradd yn Saesneg i gofleidio'r Gymraeg. Roedd yno sawl un yn barod i ysgwyddo'r baich - Dewi Machreth Ellis, Mary Vaughan Jones, John Eurig Davies, Owain Owain a Dafydd Orwig, enwau sy'n rhan o hanes ein bodolaeth a diolch amdanyn nhw bob un.

Menai oedd pennaeth yr Adran Gymraeg o 1970, gan olynu Dewi Machreth Ellis,

ac ychydig yn ddiweddarach fe ddaeth cynllun pwysig iawn i'r Normal, sef Cynllun y Porth a oedd yn cynnig syniadau a defnyddiau newydd sbon ar gyfer cyflwyno'r iaith i ysgolion cynradd Cymru.

Pump o'r gloch y pnawn a'r goleuadau'n ddisglair yn llofftydd yr hosteli a'r rhan fwyaf o staff y coleg yn troi am adref. A Menai yn cychwyn ar ail ran ei diwrnod gwaith. Mae hi eisoes wedi darlithio am wyth awr a mwy a rŵan mae hi'n cyrraedd swyddfa Cynllun y Porth yn Neuadd Seiriol ar lannau'r Fenai ac yn parcio ei char - MGB, dewis o gar sy'n syfrdanu pawb sy'n ei hadnabod, car pwerus na fu erioed allan o'r ail gêr hyd y gwn i. Ar sêt ac ar lawr y car y mae 'na anarchiaeth o nodiadau ar lenyddiaeth ac ar iaith. Mae'r cyfan yn cael ei ddal wrth ei gilydd gan ffydd a selotêp. Mae Elfyn Pritchard a Huw John Hughes wedi bod yno ers naw y bore a finnau yn cynnig paned i Menai. Mi fydd hi'n yfed tair neu bedair cyn troi am adref.

Naw o'r gloch yr hwyr a Menai yn cychwyn ar drydedd ran ei diwrnod gwaith, yn paratoi nodiadau, yn marcio ac yn ffonio tan yr oriau mân. Mae ei bil ffôn hi yn seryddol o uchel.

Ychydig iawn a wŷr am ei llafur hi ar ran yr iaith yn y blynyddoedd hynny. A dyma'r cyfnod hefyd pan oedd bodolaeth y Normal yn y fantol. Brawd yng nghyfraith Menai, J. A. Davies - Dr Jim - oedd y prifathro. Roedd y lle o dan fygythiad ers 1972, a'r prifathro yn ymhyfrydu yn y frwydr. Mae o'n cael capten hollol arbennig ym mherson Menai. 'Dwn i dim am gynnwys y sgwrsio sy'n digwydd rhwng Menai a Jim Davies, ond roedd 'na lawer iawn o fynd a dod o Gaerdydd i Lundain ac yn ôl i'r Normal yn y blynyddoedd rheiny. Does 'na ddim dadl nad oedd 'na lawer o gowtowio i'r Brifysgol, ond yr oedd Menai yn rhy falch ac yn rhy anrhydeddus i wneud hynny. Rydw i'n cael llawer o bleser wrth gofio fel y byddai hi'n troelli llawer iawn o bobol drahaus y Brifysgol a Llundain yn ei gwe sidanaidd, yn smalio bod yn ddiymgeledd ac yn ddiniwed bach cyn i'r we gau heb i neb sylweddoli bron.

Y Normal a'r capel - y Tŵr Gwyn oedd ei chapel hi - hen gaer uchel Fethodistiaeth Gogledd Arfon, ac yn ddiweddarach Berea Newydd, y capel hwnnw sydd yn debyg i gapel yn Wisconsin neu Michigan, bynglo mawr o gapel modern. Yma roedd Menai yn hollol deyrngar ac yn greiddiol a chanolog yn nosbarth ysgol Sul yr oedolion.

Y Cenhedloedd Unedig, UNICEF, Bugeiliaid y Stryd ym Mangor, dyma rai o achosion mawr Menai. Roedd ei haelioni yma ac mewn sawl cyfeiriad arall yn ddihareb. Cyfrannu yn y dirgel a wnâi hi a'r papurau deg ac ugain punt yn cael eu gwasgaru'n afradlon bron.

Yr oedd capel Berea newydd yn llawn ar ddydd ei harwyl, pawb ohonom yn edmygwyr ac yn anwyliaid yn ein dyled iddi. Ni welir mo'i thebyg eto.

(Mae'r deyrnged hon yn fersiwn lawnach o ysgrif goffa a ymddangosodd gyntaf yn Barn.)

Y "DOWCARS" DAN Y DON!

BRUCE GRIFFITHS

Er mai fel lle da i ymdrochi y daeth Llandudno'n enwog, talcen caled a fu i'r Bedyddwyr yn y 18fed ganrif. Bryd hynny pentref bychan dinod o bysgotwyr, o fwynwyr a thyddynwyr oedd Llandudno, bron i gyd yn Eglwyswyr. Yn 1776 daeth cenhadon o'r De a sefydlu achos yn Fforddlas, ger Llansanffraid Glan Conwy, a bu'r Parch. Robert Roberts yn arwain ymgyrch yn Llandudno. Oherwydd ymlyniad cyhoeddus y Bedyddwyr i fedydd trwy drochiad llwyr, cyfeiriai'r ardalwyr atynt yn ddifrïol trwy eu galw'n *'dowcars'*. Yn 1789 aeth y Parch. Roberts ati i bregethu o'r horsin, neu'r garreg farch, yn iard yr Hen Dafarn. Daeth Owen Williams, y tafarnwr, a cheisio ei hel oddi yno, ond mynnodd Mr Roberts fod ganddo hawl i bregethu a bod ei drwydded yn deillio o'r un man â thrwydded y tafarnwr. Aeth pethau'n boeth a chydiodd Williams mewn picwarch a bygwth trywanu'r pregethwr. Camodd Beti, nith Williams, rhyngddynt a dwyn perswâd ar ei hewythr i fynd i'r gwasanaeth yn yr eglwys: ac felly cafodd y Bedyddiwr gyfle i bregethu, a Beti fu ei ddisgybl cyntaf. Erbyn 1799 derbyniodd Owen Williams yntau fedydd trwy drochiad, gan greu cyfanswm o bedwar Bedyddiwr yn Llandudno.

Disgrifir bedyddiad dan ddwylo Robert Roberts yn *Hanes Bedyddwyr Cylch Llandudno (1926)* gan John Roberts. Tyrrodd pobl y Creuddyn i'r traeth, a phobl Conwy, mewn cychod yn hanner cylch, ar wyneb y dŵr. Yn y môr safai'r bedyddiedig a'r bedyddiwr. Peth newydd oedd yr olygfa i bobl Conwy, a'r adeg honno hwy oedd anwariaid mwyaf Gwynedd. Pe buasai trigolion Bedlam yno ni allasent fod yn fwy swnllyd gyda'u gweiddi sgornllyd ac ofnadwy. Bloeddiwyd 'Tawelwch yn enw Brenin Nef!' ond yn ofer. Bloeddiodd Mr Roberts eto 'Tawelwch yn enw Siôr y Trydydd!' Tynnodd drwydded o'i boced a chyhoeddi 'Dyma drwydded gan Ei Fawrhydi i arwain defodau crefyddol heb rwystr gan yr un o'i ddeiliaid'. Bu'r olwg arno a'i lais awdurdodol yn ddigon i'w dychryn, a gallodd ganlyn arni'n dawel a hamddenol i egluro'r ddefod ac i weinidogaethu'n weddus. Sylwer na fu enw Brenin Nef yn ddigon i roi taw ar y gwatwarwyr: ni thyciodd dim ond enw brenin Prydain Fawr. Tebyg na chofient ond hanner cyntaf yr adnod *'Telwch chwithau yr eiddo Cesar i Gesar, a'r eiddo Duw i Dduw'*. (Matthew, XXII, 21.)

GWEFAN NEWYDD

Cofiwch droi at www.henaduriaetharfon.org

Y DIGWYDDIADUR

EBRILL

Dydd Mawrth 23ain

Dydd Mercher 24ain Cymdeithasfa'r Gogledd ym Mlaenau Ffestiniog

MAI

Dydd Mawrth 7fed Undeb Athrofa'r Bala yn Seilo Llandudno: "Adnabod Cymdeithas/Gweithredu yn y Gymdeithas"
(wele'r manylion yn y cyntedd bach)

Dydd Sadwrn 11eg **DATHLU 10**
Uno gyda Thaith Pererin Gogledd Cymru
(wele'r manylion yn y cylchgrawn hwn)

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL 12 -18fed

Dydd Llun 13eg Berea Newydd - Cinio i'r Tlawd

Nos Fawrth 14eg
am 6:30 Henaduriaeth Arfon - Rehoboth

MEHEFIN

Bore Sul 16eg Moliant y Plant -Bethesda
Moliant yr Hwyr - daw'r manylion eto.

Nos Wener 21ain **DATHLU 10**
Dawns Werin a Rhost yn yr Hendre

GORFFENNAF

(Ni fydd y Gweinidog ar gael o'r 1af hyd y 13eg!)

Dydd Sul 7fed Gwyl Pen tymor yn y bore
(oedfa'r Ysgol Sul)

Dydd Sadwrn 13eg Trip Ysgol Sul

Catrin James Dawson ar ddydd ei phriodas

Llion Williams a'i ferch fach Lili, ar y noson y cyrhaeddodd y bwrdd tenis

Criw Cic Bang yn mwynhau y bwrdd tenis newydd a brynwyd gydag arian a dderbyniwyd yn angladd y diweddar Mrs Pegi Williams